

## **Colegau Cymru / Colleges Wales Limited**

### **Cod Ymddygiad Llywodraethu Corfforaethol**

## Colegau Cymru / Colleges Wales Limited

### COD YMDDYGIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

#### 1. Diffiniad

Yn y Cod hwn:

Mae “Colegau Cymru” yn golygu Colegau Cymru / Colleges Wales Limited

Mae “Ymddiriedolwr” yn golygu Aelod Bwrdd, Cyfarwyddwr Colegau Cymru / Colleges Wales Limited

#### 2. Cyflwyniad

Bwriedir i'r Cod hwn fod yn ganllaw i Ymddiriedolwyr i nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt, i'w galluogi i ddeall eu dyletswyddau cyfreithiol ac i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau ac yn eu perthynas â'r Cadeirydd a Phrif Weithredwr Colegau Cymru. Mae'r Cod hwn, felly, wedi'i anelu at hyrwyddo llywodraethu effeithiol a gwybodus ac ni fwriedir iddo fod yn ddatganiad diffiniol nac awdurdodol o'r gyfraith.

Mae'r codau hyn yn seiliedig ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Pwyllgorau Nolan. Dylai Ymddiriedolwr Colegau Cymru / Colleges Wales Limited dilyn yr egwyddorion yma:

**Anhunanoldeb:** gweithredu er budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn cael buddion ariannol neu fuddion eraill iddynt hwy eu hunain, eu teuluoedd neu eu ffrindiau.

**Uniondeb:** peidio â rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

**Gwrthrychedd:** gwneud dewisiadau ar sail teilyngdod wrth gyflawni busnes megis gwneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymhell unigolion ar gyfer gwobrau a buddion.

**Atebolrwydd:** rhaid i benderfyniadau a chymau gweithredu gyflwyno eu hunain i ba bynnag graffu sy'n briodol.

**Didwylledd:** bod mor agored â phosibl am yr holl benderfyniadau a chymau a gymerir. Rhoi rhesymau dros benderfyniadau a chyfyngu ar wybodaeth dim ond pan fo'n amlwg bod budd ehangach y cyhoedd yn mynnu hynny.

**Gonestrwydd:** dyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

**Arweinyddiaeth:** hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweiniad ac esiampl.

### 3. Gofynion Cyfreithiol

Dylai Ymddiriedolwyr Colegau Cymru:

- Sicrhau eu bod yn gweithredu o fewn y pwerau a'r amcanion (cylch gorchwyl) a nodir yng nghyfansoddiad Colegau Cymru.
- Gweithredu er lles gorau Colegau Cymru bob amser.
- Ddim elwa'n bersonol – oni bai y caniateir yn benodol yn y cyfansoddiad neu gan y gyfraith.
- Gweithredu'n ddarbodus ac yn rhesymol.
- Osgoi neu reoli unrhyw wrthdaro buddiannau.

### 4. Ymarferol

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cytuno y byddant yn:

- Ymdrechu i fynychu pob cyfarfod, gan anfon ymddiheuriadau at y Cadeirydd ac Ysgrifennydd y cwmni am absenoldebau angenrheidiol.
- Paratoi ar gyfer y cyfarfod drwy ddarllen yr agenda, papurau a negeseuon e-bost cyn y cyfarfod.
- Siarad â'r Cadeirydd cyn y cyfarfod os oes angen egluro unrhyw beth.
- Cyrraedd ar amser. Aros hyd y diwedd.
- Cymryd rhan lawn yn y cyfarfod:
  - Gwrando ar yr hyn sydd gan eraill i'w ddweud a chadw meddwl agored.
  - Cyfrannu'n gadarnhaol i'r trafodaethau.
  - Ceisio fod yn gryno ac osgoi ymson/areithiau.
- Helpu eraill i ganolbwyntio ar y cyfarfod. Peidio annog sgysiau ochr.
- Cyflawni unrhyw gyfrifoldebau a roddwyd i chi yn y cyfarfod a bod yn barod i adrodd yn ôl ar eich cynnydd yn y cyfarfod nesaf.
- Cydnabod y gall gwahaniaethau barn godi wrth drafod materion, ond pan fo penderfyniad mwyafrifol gan y Bwrdd dylid ei gefnogi.
- Parchu cyfrinachedd yr eitemau busnes hynny y mae'r Bwrdd yn penderfynu o bryd i'w gilydd y dylid eu cadw'n gyfrinachol.
- Deall nad oes gan aelod unigol o'r Bwrdd yr hawl, ac eithrio'r Cadeirydd gyda chytundeb y Bwrdd, i wneud datganiadau cyhoeddus neu fynegi barn gyhoeddus ar ran y Bwrdd.
- Osgoi dwyn anfri ar Colegau Cymru a'i aelodau.
- Cefnogi nodau ac amcanion Colegau Cymru.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau, bydd y Bwrdd yn:

- Cynnal diogelwch ariannol Colegau Cymru trwy dderbyn a gweithredu ar wybodaeth ariannol gyfredol a chywir a gwybodaeth arall.
- Gosod cenhadaeth a strategaeth Colegau Cymru.
- Canolbwyntio ar bolisi yn hytrach nag ar reolaeth o ddydd i ddydd.
- Gosod nodau a dyfeisio dulliau o asesu cynnydd mewn perthynas â'r rhain.

- Adolygu ei berfformiad yn flynyddol.
- Disgwyl i'r Prif Weithredwr weithredu penderfyniadau'r Bwrdd.
- Bod yn rhan o rai penodiadau fel y penderfynir gan y Bwrdd.

O ran ei ddull gweithredu, bydd y Bwrdd yn:

- Derbyn yr agenda a'r papurau ategol bum diwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod y Bwrdd
- Cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn.
- Derbyn papurau nad ydynt fel arfer yn fwy na thair ochr A4 o hyd, gyda dogfennaeth ategol os oes angen.
- Disgwyl i bapurau'r Bwrdd nodi a ydynt er gwybodaeth, ar gyfer sylwadau neu ar gyfer penderfyniad.
- Disgwyl i gyfarfodydd y Bwrdd fod heb fod yn hwy na thair awr, oni bai y cynllunnir yn wahanol.

## 5. Y Prif Weithredwr

Penodir y Prif Weithredwr gan y Bwrdd ac mae'n gyflogai i Colegau Cymru. Mae'n atebol drwy'r Bwrdd i'r colegau yng Nghymru yn aelodaeth Colegau Cymru.

Mae'n gyfrifol am reoli'r gyllideb a'r adnoddau o ddydd i ddydd o fewn yr amcangyfrifon a gymeradwywyd gan y Bwrdd a rheoli staff a gyflogir gan Colegau Cymru.

Mae'n gwneud cynigion ar gyfeiriad strategol a chenhadaeth Colegau Cymru i'r Bwrdd.

Mae'r Prif Weithredwr yn bersonol atebol i'r Bwrdd am gyflawni ei gyfrifoldebau/chyfrifoldebau fel Prif Weithredwr yn briodol ac am weithredu penderfyniadau'r Bwrdd.

Ef/Hi yw'r swyddog cyfrifyddu a chynghorydd proffesiynol y Bwrdd. Mae'n cyflawni'r disgrifiad swydd sy'n nodi cyfrifoldebau'r swydd.

### **Mae Bwrdd Colegau Cymru / Colleges Wales yn disgwyl i'r Prif Weithredwr:**

- Gweithredu penderfyniadau'r Bwrdd.
- Rheoli materion Colegau Cymru gan roi sylw dyledus i'w iechyd ariannol yn unol â phenderfyniadau a wneir gan y Bwrdd.
- Bod yn gyfrifol am reoli Colegau Cymru o ddydd i ddydd.
- Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd.
- Parchu cyfrinachedd yr eitemau busnes hynny y mae'r Bwrdd yn penderfynu o bryd i'w gilydd y dylid eu cadw'n gyfrinachol.
- Rhoi gwybod i'r Bwrdd am yr holl faterion perthnasol ac arwyddocaol sy'n wynebu Colegau Cymru ar yr amser priodol a gyda chynghor perthnasol.
- Sicrhau bod dogfennaeth briodol yn cael ei dosbarthu i'r Bwrdd mewn da bryd i'r aelodau ei hastudio.
- Sicrhau bod yr holl faterion a godir yn y Bwrdd yn cael eu cwmpasu gan bapur, ac eithrio mewn amgylchiadau prin.

- Cydweithio gyda'r Bwrdd er lles gorau Colegau Cymru.
- Cefnogi nodau ac amcanion Colegau Cymru a hyrwyddo ei fuddiannau lle bynnag y bo modd yng Nghymru a lle bo'n briodol, y tu allan i Gymru.
- Peidio â gweithredu mewn modd fydd yn dwyn anfri ar Colegau Cymru.
- Cymryd cyfrifoldeb am y camau a gymerir gan y staff o dan ei gyfarwyddyd/chyfarwyddyd.
- Ymgynghori, os yw'n briodol, â'r Cadeirydd cyn gwneud datganiadau cyhoeddus.

Llofnodwyd .....

Argraffu Enw .....

Dyddiad .....